Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

2 Mehefin 2020



Y Senedd a BREXIT

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7571**
E-bost: **lucy.valsamidis@Senedd.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Trafodaethau ynghylch ymadawiad y DU â'r UE
## Adroddiad Monitro

2 Mehefin 2020

**Awduron:**
Lucy Valsamidis, Sara Moran a Rhun Davies

Y Senedd a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........................................................................ 1**

Crynodeb o'r datblygiadau ........................................................................ 1

**2. Datblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE.......... 2**

Pwyntiau allweddol: Yr Undeb Ewropeaidd ............................................ 3

Pwyntiau allweddol: Y DU ........................................................................ 4

Gohebiaeth rhwng y Prif Drafodwyr drwy lythyrau .................................. 4

Gweithredu'r Cytundeb Ymadael ............................................................ 4

Cyfarfodydd pwyllgorau arbenigol .......................................................... 5

**3. Datblygiadau yn y DU ........................................................ 7**

Trafodaethau rhyngwladol ...................................................................... 7

Deddfwriaeth y DU .................................................................................. 8

Parodrwydd ............................................................................................. 11

Cysylltiadau rhynglywodraethol .............................................................. 11

Ymgynghoriad pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin ............................................... 12

**4. Datblygiadau yng Nghymru ............................................. 12**

Trafodaethau ynghylch y berthynas â'r UE yn y dyfodol ......................... 12

Trafodaethau rhyngwladol ...................................................................... 12

Deddfwriaeth ........................................................................................... 13

Parodrwydd ........ 13

Fframweithiau Cyffredin ........ 14

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin ........ 14

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn dadansoddi'r prif ddatblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE ers 19 Mawrth, a hynny o safbwynt y DU a Chymru.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Mae'r bedwaredd rownd o drafodaethau ar **berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol** i ddigwydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 1 Mehefin. Yna'n ddiweddarach yn y mis bydd uwchgynhadledd lefel uchel yn cael ei chynnal ble bydd y DU a'r UE yn adolygu cynnydd ac yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf. Ar ôl y drydedd rownd o drafodaethau, roedd y ddwy ochr yn cydnabod nad oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud, yn enwedig o ran meysydd dargyfeirio allweddol fel cystadleuaeth (chwarae teg i bob ochr) a physgodfeydd. Ers hynny mae'r ddwy ochr wedi bod yn gohebu â'i gilydd drwy lythyr ac wedi gwneud datganiadau yn ailddatgan eu priod safbwyntiau. Yn y cyfamser, cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf i oruchwylio gweithrediad y Cytundeb Ymadael.

**Ar lefel y DU,** cynhaliodd y Llywodraeth ei rownd gyntaf o drafodaethau masnach gyda'r Unol Daleithiau a chyhoeddodd ei dull gweithredu amlinellol o ran trafodaethau masnach â Japan. Parhaodd deddfwriaeth Brexit i symud ymlaen drwy Senedd y DU. Cyfarfu Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) ddiwedd mis Mai am y tro cyntaf ers mis Ionawr. Teimlwyd effaith pandemig y coronafeirws ar baratoadau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys oedi o ran gwneud ceisiadau i gynllun setliad yr UE ac atal ymgysylltiad rhanddeiliaid â'r rhaglen fframweithiau cyffredin.

**Yng Nghymru**, dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd fod ymgysylltiad â Gweinidogion yn nhrafodaethau'r DU a'r UE wedi dod 'hyd yn oed yn fwy annigonol' ac roedd yn parhau i alw am ragor o gyfranogiad o ran y llywodraethau datganoledig. Rhybuddiodd Llywodraeth Cymru am effaith pandemig y coronafeirws ar barodrwydd ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, a galwodd am estyniad iddo. Rhoddodd y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol ddiweddariad i'r Senedd ar ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU ynghylch trafodaethau masnach ryngwladol. Bu pwyllgorau'r Senedd yn craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru o ran deddfwriaeth Brexit y DU.

# 2. Datblygiadau yn y trafodaethau rhwng y DU a'r UE

Mae'r bedwaredd rownd o drafodaethau ar **berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol** i ddigwydd yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 1 Mehefin. Bydd cyfarfod lefel uchel, ble y bydd y Prif Weinidog yn bresennol, yn cael ei gynnal yn ddiweddarach ym mis Mehefin, pan fydd y ddwy ochr yn adolygu cynnydd ac yn penderfynu beth fydd yn digwydd nesaf. Nodir bod cytundeb i gynnal y cyfarfod hwn yn **y Datganiad Gwleidyddol**. Ar adeg cyhoeddi, nid oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer y cyfarfod. Mae **David Frost, Prif Drafodwr y DU,** fodd bynnag, yn disgwyl y bydd y cyfarfod yn digwydd yn ystod wythnos olaf mis Mehefin, ar ôl y **cyfarfod o Gyngor yr UE ar 19 Mehefin**. Mewn tystiolaeth i **Bwyllgor Dethol yr UE** Tŷ'r Arglwyddi, dywedodd David Frost fod pawb sy'n gysylltiedig yn gweithio yn ôl y rhagdybiaeth y bydd rhagor o rowndiau trafod ar ôl y cyfarfod lefel uchel, ac o bosibl y caiff rownd ychwanegol ei chynnal ym mis Mehefin ac un arall ym mis Gorffennaf.

Cytunodd y ddwy ochr mai ychydig o gynnydd a wnaed yn ystod y drydedd rownd o drafodaethau a gynhaliwyd rhwng 11 Mai a 15 Mai, gan gynnwys ar feysydd dargyfeirio allweddol. Mae'r rhain wedi'u nodi fel cystadleuaeth (y cyfeirir atynt fel 'trin pob ochr yn yr un modd (LPF)', pysgodfeydd, llywodraethu a chydweithrediad ar faterion barnwrol.

Mae galwadau i ymestyn y cyfnod pontio yn parhau (yn fwyaf diweddar gan **gwmnïau cludo ar ffyrdd yr UE)**. Ar 26 Mai, **cadarnhaodd Michel Barnier** Prif Drafodwr yr UE fod yr UE yn parhau i fod yn agored ar y mater mewn ymateb i lythyr oddi wrth **chwe gwrthblaid wleidyddol y DU**. Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r **Pwyllgor ar y Berthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y Dyfodol** ar 27 Mai, cadarnhaodd Michael Gove, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn na cheisir estyniad, ac na fyddai 'cam gweithredu' ychwanegol yn cael ei ystyried. Y diwrnod canlynol, wrth gyflwyno tystiolaeth i **Bwyllgor Dethol yr UE Tŷ'r Arglwyddi**, cadarnhaodd nad oes unrhyw amgylchiadau lle byddai Llywodraeth y DU yn ceisio estyniad nac yn cytuno i'w gael.

Mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar y trafodaethau hefyd. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld yn yr **erthygl flog ddiweddaraf** gan Ymchwil y Senedd.

## Pwyntiau allweddol: Yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r UE yn ceisio un cytundeb â'r DU a fyddai'n cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar berthynas y DU a'r UE yn y dyfodol. Cyhoeddodd ei **thestun cyfreithiol drafft**, sy'n cyfeirio at y berthynas yn y dyfodol fel 'partneriaeth', ar 18 Mawrth. Mae'r testun wedi'i strwythuro mewn chwe rhan, fel, partneriaeth economaidd (Rhan 2) a phartneriaeth ddiogelwch (Rhan 3). Mae'r UE wedi gwneud ei chynnig yn amodol ar fod y DU yn cytuno ar wahanol elfennau o'i chynigion. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth economaidd yn dibynnu ar gytundeb ar bysgodfeydd. Yn yr un modd, mae'r bartneriaeth ddiogelwch yn dibynnu ar ymlyniad parhaus y DU â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) ac ar fod y DU yn cynnal lefel ddigonol o ddigonolrwydd data.

### Senedd Ewrop yn cyhoeddi argymhellion

Ar 6 Ebrill, cyhoeddodd Senedd Ewrop hefyd ei **hadroddiad drafft ar yr argymhellion** ar gyfer y trafodaethau, ac mae hwn yn cyflwyno casgliadau'r Pwyllgor Materion Tramor a'r Pwyllgor Masnach Ryngwladol. Mae'r argymhellion yn ailddatgan pwysigrwydd craffu seneddol ar faterion sy'n codi yn sgîl ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys gweithredu'r Cytundeb Ymadael. Disgwylir i Senedd Ewrop fabwysiadu ei hadroddiad terfynol ar 17 Mehefin.

Rhoddodd David McAlister ASE, cadeirydd grŵp cydgysylltu'r Berthynas â'r DU yn y Dyfodol Senedd Ewrop, **dystiolaeth** i Bwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Materion Allanol Senedd yr Alban ar 26 Mai, pan nododd ymateb cychwynnol y Senedd i destunau negodi drafft Llywodraeth y DU.

### Cyfarfod o wladwriaethau'r AEE

Ar 25 Mai, ar ôl eu cyfarfod rheolaidd, cyhoeddodd taleithiau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), sy'n cynnwys 27 o wledydd yr UE, Liechtenstein, Norwy a Gwlad yr Iâ **ddatganiad ar y cyd**, a oedd yn cyfeirio at ymadawiad y DU â'r UE a **Chytundeb yr AEE**. Mae'r datganiad yn annog gwladwriaethau'r UE, yr AEE ac EFTA i barhau â'u deialog agos ar faterion sy'n codi yn sgîl ymadawiad y DU â'r UE a'r AEE.

## Pwyntiau allweddol: Y DU

Mae'r DU yn awyddus i gael nifer o gytundebau ar wahân â'r UE, yn seiliedig ar gytundeb masnach rydd cynhwysfawr canolog. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y **cytundebau drafft** a ganlyn ar 19 Mai:

- Cytundeb Masnach Rydd Cynhwysfawr rhwng y DU a'r UE (CFTA)
- Cytundeb Fframwaith Pysgodfeydd
- Cytundeb Cludiant Awyr
- Cytundeb Diogelwch Hedfan Sifil
- Cytundeb Ynni
- Cytundeb Cyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol
- Cydweithrediad Niwclear Sifil
- Cydweithio o ran Gorfodi'r Gyfraith a Materion Barnwrol mewn Materion Troseddol
- Cytundeb ar drosglwyddo plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches
- Cytundeb ar aildderbyn pobl sy'n preswylio heb awdurdod

Nodwyd safbwynt y DU mewn **datganiad gan David Frost, y Prif Drafodwr** yn dilyn y drydedd rownd o drafodaethau ar 15 Mai.

## Gohebiaeth rhwng y Prif Drafodwyr drwy lythyrau

Yn dilyn y drydedd rownd o drafodaethau, bu gohebiaeth drwy lythyrau rhwng **David Frost** a **Michel Barnier** y Prif Drafodwyr, lle roedd y ddau yn nodi eu priod safbwyntiau. Mewn ymateb i lythyr David Frost, nododd Michel Barnier na all cyfnewid llythyrau 'gymryd lle ymgysylltiadau difrifol a thrafodaethau manwl.'

## Gweithredu'r Cytundeb Ymadael

Cyfarfu Cydbwyllgor y DU-yr UE ar weithredu'r Cytundeb Ymadael drwy gyfrwng telegynhadledd am y tro cyntaf ar 30 Mawrth. Cyhoeddodd **Llywodraeth y DU** a'r **Comisiwn Ewropeaidd** ddatganiadau ar wahân ar ôl y cyfarfod lle penderfynwyd lansio gwaith y chwe Phwyllgor Arbenigol. Ar 15 Ebrill, **cytunodd David Frost a Michel Barnier, y prif drafodwyr** fod gweithredu'r Cytundeb Ymadael mewn ffordd briodol ac amserol yn brif flaenoriaeth i'r ddwy ochr.

Mae cyfarfodydd cyntaf y **chwe Phwyllgor Arbenigol** (ar Hawliau Dinasyddion; Darpariaethau Gwahanu Eraill;  Iwerddon / Gogledd Iwerddon; Gibraltar; ac ar Ardaloedd Sylfaen Sofran yng Nghyprus a Darpariaethau Ariannol) wedi'u crynhoi isod.

## Cyfarfodydd pwyllgorau arbenigol

### Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon

Cyfarfu'r Pwyllgor Arbenigol ar weithredu'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon am y tro cyntaf ar 30 Ebrill. Cyhoeddodd y **DU** a'r **UE** ddatganiadau ar ôl y cyfarfod.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Comisiwn yr UE **nodyn technegol ar weithredu Protocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon**, a oedd yn galw ar y DU i ddarparu rhagor o fanylion am ei chamau gweithredu, i gynnal trafodaethau gweithredu technegol gyda'r Comisiwn ac i weithredu ar frys yn y meysydd a ganlyn: hawliau unigolion, tollau a symud nwyddau, TAW, y farchnad drydan sengl a chymorth gwladwriaethol. Mae'r nodyn hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i 'ymgysylltu ar frys' â'r gymuned fusnes yng Ngogledd Iwerddon i alluogi paratoadau i gael eu gwneud ar gyfer y trefniadau newydd.

Cyhoeddodd y DU **bapur gorchymyn ar Brotocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon ar 20 Mai**. Mae hwn yn nodi sut y bydd y DU yn gweithredu'r Protocol, ac yn canolbwyntio ar drefniadau tollau a masnachu. Mae'n amlinellu cynllun pedwar pwynt a fydd yn ceisio sicrhau:

1. Mynediad dilyffethair i fusnesau Gogledd Iwerddon i weddill y DU (ac yn benodol, y dylai'r fasnach ddigwydd fel y mae nawr);
2. Dim tariffau ar fasnach fewnol y DU;
3. Dim seilwaith tollau newydd yng Ngogledd Iwerddon;
4. Bod Gogledd Iwerddon yn elwa o fargeinion masnach y DU.

### Darpariaethau ariannol

Cynhaliwyd **cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Arbenigol ar Ddarpariaethau Ariannol** ar 19 Mai. Rhoddodd y ddwy ochr ddiweddariadau ar roi Rhan V o'r Cytundeb Ymadael ar waith o'u rhan hwy, ac ailddatgan eu hymrwymiad i'w cyfrifoldebau cyfreithiol. Cytunwyd i barhau â gwaith anffurfiol ar y gofynion o ran gwybodaeth ac i gydweithio ar faterion technegol.

### Hawliau dinasyddion

Cynhaliwyd **cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Arbenigol ar Hawliau Dinasyddion** ar 20 Mai. Rhoddodd y ddwy ochr ddiweddariadau o ran gweithredu'r darpariaethau hawliau dinasyddion yn y Cytundeb Ymadael ac ailddatgan eu cyd-amcan,

sef sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n amserol ac yn gywir er mwyn rhoi sicrwydd i ddinasyddion. Cytunodd y cyd-gadeiryddion y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd i ddilyn hynt y gweithredu.

Cynhaliwyd y cyfarfod yn dilyn anghydfod a gododd rhwng y DU a'r UE ynghylch hawliau dinasyddion. Ar 14 Mai, lansiodd Comisiwn yr UE **achos torri cyfraith** yn erbyn y DU am ei methiant i gydymffurfio â chyfraith yr UE ar symudiad rhydd dinasyddion yr UE ac aelodau o'u teuluoedd. Mae gan y DU bedwar mis i ymateb. Ar yr un diwrnod, cododd Llywodraeth y DU bryderon ar ran dinasyddion y DU sy'n byw yn aelod-wladwriaethau'r UE mewn **llythyr at y Comisiwn**. Roedd y pryderon yn ymwneud ag anghysondebau ymhlith aelod-wladwriaethau'r UE wrth gyfleu gwybodaeth allweddol, o ran y broses o wneud cais, ac o ran cefnogaeth i ddinasyddion bregus. Yn ystod tystiolaeth i **Bwyllgor Dethol yr UE Tŷ'r Arglwyddi** ar 28 Mai, awgrymodd Michael Gove, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn y byddai cyfle i ddilyn trywydd y mater yng nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud, ar wahân i hyn, bod prosesu ceisiadau am **Gynllun setliad yr UE** yn cymryd rhagor o amser nag arfer oherwydd pandemig y coronafeirws. Mae'r **Swyddfa Gartref wedi nodi'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl sy'n gwneud cais** mewn blog. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau o hyd yw 30 Mehefin 2021.

## Gibraltar

Cynhaliwyd **cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Arbenigol ar Gibraltar** ar 27 Mai. Bu'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn edrych yn fanwl ar lefel cyflawni rhwymedigaethau o ran Gibraltar, a chytunwyd i gwrdd eto tua diwedd y flwyddyn i ddilyn hynt y Protocol.

Mae'r Cytundeb Ymadael yn cynnwys Protocol ar Gibraltar. Mae Gibraltar wedi'i eithrio o'r trafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol, a disgwylir iddo gael ei gynnwys mewn cytundeb ar wahân rhwng y DU a'r UE (ble y bydd yntau ei hun yn ddarostyngedig i gydsyniad penodol Sbaen).

# 3. Datblygiadau yn y DU

## Trafodaethau rhyngwladol

### Trafodaethau rhwng y DU a'r Unol Daleithiau (UD)

Dechreuodd rownd gyntaf y trafodaethau ar gyfer cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UD ar 5 Mai, yn dilyn galwad fideogynadledda rhwng Liz Truss AS, Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Fasnach Ryngwladol a Robert Lighthizer, Cynrychiolydd Masnach yr Unol Daleithiau. Oliver Griffiths, o dan oruchwyliaeth Crawford Falconer, Prif Gynghorydd Negodi Masnach yr Adran Masnach Ryngwladol, a fu'n arwain y sgyrsiau ar ochr y DU.

Cyhoeddodd **Llywodraeth y DU ddatganiad** ar ganlyniad y rownd gyntaf o drafodaethau ar 18 Mai. Roedd y datganiad yn disgrifio'r rownd fel un 'gadarnhaol ac adeiladol' a nododd ymhellach:

> A number of areas showed particular progress, including where both teams identified positive alignment between respective negotiating positions. They identified a mutually high ambition for services, investment and digital trade, among other areas.
>
> Both sides also set out a mutual commitment to creating new opportunities for businesses on both sides of the Atlantic and to delivering benefits for workers, consumers and farmers. This includes the confirmation that both sides will quickly pursue a standalone Small and Medium Enterprises (SME) Chapter and will continue the UK-US SME Dialogue..

Bydd y rownd nesaf o drafodaethau yn cael ei chynnal rhwng 15 a 22 Mehefin, ond yn y cyfamser bydd cyfarfodydd rhithwir yn parhau i gael eu cynnal rhwng y ddau dîm o drafodwyr.

Adroddodd y **Times ar 3 Mai** fod Llywodraeth y DU yn ceisio ddefnyddio'r trafodaethau â'r Unol Daleithiau i gael rhagor o ddylanwad ac i sicrhau telerau gwell gyda'r UE yn y trafodaethau Brexit a gaiff eu cynnal ochr yn ochr.

### Trafodaethau rhyngwladol eraill

Ar 13 Mai, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **hamcanion trafod** ar gyfer cytundeb masnach rydd â Japan. Mae'r amcanion yn nodi bod disgwyl i'r sgyrsiau gychwyn yn fuan. Mae'r amcanion cyhoeddedig yn cynnwys amlinelliad lefel uchel o amcanion trafod y DU, o ymateb Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gytundeb masnach rydd y DU-Japan, ac o asesiad cychwynnol o effeithiau

hirdymor posibl cytundeb. Disgwylir i'r rowndiau cyntaf o sgyrsiau gychwyn yn fuan, gan ddefnyddio fideo-gynadledda nes yr ystyrir ei bod yn ddiogel i deithio.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi dweud y bydd cyn hir yn cyhoeddi ei hamcanion trafod ar gyfer cytundeb masnach rydd gydag Awstralia a Seland Newydd, gyda'r nod o sicrhau 80 y cant o gyfanswm masnach allanol y DU gyda gwledydd a gwmpesir gan gytundebau masnach rydd erbyn 2022.

## Deddfwriaeth y DU

### Y Bil Amaethyddiaeth

Daeth cyfnodau pwyllgor y **Bil Amaethyddiaeth** a oedd yn weddill yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 13 Mai 2020. Caiff y Bil yn awr ei ystyried gan Dŷ'r Arglwyddi.

Cafodd **Tŷ'r Cyffredin dri o welliannau gan y Llywodraeth** (20-22), ar gais Llywodraeth Cymru. Roedd y rhain i wneud newidiadau i'r pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth ar ddatblygu gwledig yn Atodlen 5.

Gwrthododd Tŷ'r Cyffredin dri gwelliant ar sail ymraniad. Byddai **cymal newydd 2** wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU gadarnhau y byddai unrhyw gynnyrch amaethyddol neu fwyd a gaiff ei fewnforio o dan gytundeb rhyngwladol newydd yn cael ei gynhyrchu neu ei brosesu yn unol â safonau sy'n cyfateb i, neu sy'n uwch, na safonau domestig cymwys. Byddai **Gwelliant 39** wedi dileu'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i awdurdod datganoledig ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth y DU at ddibenion sicrhau cydymffurfiaeth â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar amaethyddiaeth. Byddai **cymal newydd 7** wedi ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU baratoi cynllun bwyd brys o ran y coronafeirws.

Mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad** y Senedd ill dau bellach wedi adrodd ar **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am oblygiadau'r Bil i Gymru, gallwch ddarllen y **papur briffio hwn gan Ymchwil y Senedd.**

### Y Bil Pysgodfeydd

Daeth cyfnodau pwyllgor y **Bil Pysgodfeydd** yn Nhŷ'r Arglwyddi i ben ar 11 Mawrth heb ei ddiwygio. Mae'r cyfnod **cyflwyno adroddiad** eto i'w drefnu. Nod y Bil yw sefydlu fframwaith pysgodfeydd ledled y DU ar wahân i Bolisi Pysgodfeydd

Cyffredin yr UE (CFP). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei chefnogaeth i Fil y DU yn ei **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** a osodwyd ar 12 Chwefror.

Cyflwynodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd **ei adroddiad ar y Bil** ar 21 Mai. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil, ar yr amod ei bod yn cael ei bodloni gan ymateb Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i bob un o'i argymhellion. Cyflwynodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd hefyd **adroddiad ar y Bil** ym mis Mai a gwnaeth nifer o argymhellion. I gael rhagor o wybodaeth am oblygiadau'r Bil i Gymru, gallwch ddarllen y **papur briffio hwn gan Ymchwil y Senedd**

## Bil yr Amgylchedd

Cyrhaeddodd Bil yr Amgylchedd, a gyflwynwyd ar 31 Ionawr y **cyfnod pwyllgor** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mawrth. Nod y Bil yw sefydlu fframwaith ar gyfer egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol y tu allan i'r UE, ac mae'n cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru ar faterion fel gwastraff, effeithlonrwydd adnoddau, ansawdd dŵr ac aer. Gosododd Llywodraeth Cymru **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar 26 Chwefror, lle'r oedd yn dod i'r casgliad bod Bil y DU yn gyfrwng 'priodol ... i gyflwyno mentrau' yn y meysydd a gwmpesir gan y Bil.

Mae gan **Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig** a **Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad** y Senedd ddyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Memorandwm, sef 2 Gorffennaf.

## Y Bil Masnach

Mae'r **Bil Masnach** yn darparu pwerau i Weinidogion y DU, ac mewn rhai achosion Gweinidogion Cymru, sy'n ofynnol wrth i'r DU ddatblygu ei pholisi masnach newydd nawr ei bod wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd. Gosododd Llywodraeth Cymru ei **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ar y Bil ar 2 Ebrill a phasiodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Mai.

## Y Bil Cyfraith Ryngwladol Breifat (gweithredu Cytundebau)

Mae'r **Bil yn cyflawni dwy swyddogaeth**. Yn gyntaf, mae'n galluogi Llywodraeth y DU i barhau i weithredu tri chytundeb cyfraith ryngwladol breifat benodol (Cymal 1). Yn ail, mae'n creu pŵer dirprwyedig newydd i weithredu cytundebau cyfraith rhyngwladol breifat mewn cyfraith ddomestig yn y dyfodol, drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth (Cymal 2). Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **sawl**

**dogfen** ochr yn ochr â'r Bil, sy'n parhau heb ei newid.

## Y Bil Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE)

Pwrpas y **Bil Mewnfudo** yw diddymu cyfraith a ddargedwir yr UE ar ryddid i symud. Mae'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud newidiadau o ganlyniad i hyn a phwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon i addasu cyfraith a ddargedwir yr UE ar gyd-drefnu nawdd cymdeithasol. Mae hefyd yn darparu ar gyfer amddiffyn statws gwladolion Gwyddelig. Pasiodd y Bil ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Mai. Nid oes angen cydsyniad y Senedd arno.

## Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

Pwrpas y **Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol** yw darparu pwerau i awdurdodau'r DU newid cyfraith a ddargedwir yr UE ar feddyginiaethau dynol a dyfeisiau meddygol, meddyginiaethau milfeddygol a threialon clinigol ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Nid yw'r dyddiad ar gyfer y cyfnod pwyllgor wedi'i gyhoeddi eto. Nid yw'n ofynnol i'r Bil gael cydsyniad y Senedd.

## Bil Estraddodi (Arestio Dros Dro)

Pwrpas y **Bil Estraddodi (Arestio Dros Dro)** yw galluogi'r heddlu i arestio personau o wledydd penodol heb warant gan farnwr yn y DU. Ar hyn o bryd gall yr heddlu arestio pobl o wledydd yr UE heb warant y DU drwy'r Warant Arestio Ewropeaidd. Nid yw Llywodraeth y DU yn **ceisio cael mynediad at y Warant Arestio Ewropeaidd** ar ôl y cyfnod pontio. Mae'r **Swyddfa Gartref wedi dweud** y gellid gwneud offeryn statudol o dan y Ddeddf, i ymestyn y pŵer i arestio person heb warant gan farnwr yn y DU i rai aelod-wladwriaethau o'r UE neu bob un ohonynt. Nid yw'n ofynnol i'r Bil gael cydsyniad y Senedd. Digwyddodd ei gyfnod adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Mawrth.

## Deddfwriaeth arall

Mae Llywodraeth y DU yn dal i gynllunio i gyflwyno deddfwriaeth gwasanaethau ariannol ac i ddeddfu i 'warantu **mynediad dilyffethair** i fusnesau Gogledd Iwerddon i farchnad fewnol gyfan y DU' erbyn diwedd y cyfnod pontio. Disgwylir llawer iawn o is-ddeddfwriaeth hefyd.

## Parodrwydd

Wrth gyflwyno **tystiolaeth i Bwyllgor yr Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi** ar 28 Mai, dywedodd Michael Gove, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn a David Frost Prif drafodwr y DU:

> [A]t some point, prioritising readiness for the end of the year will loom larger than the negotiating process. We're not at that point at the moment, but as a matter of logic, that will come.

Adroddodd y **Times** ar 17 Mai y byddai pwyllgor Gweithrediadau Ymadael (XO) Llywodraeth y DU i wneud paratoadau ar gyfer dim cytundeb bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio ar gyfer methiant i ddod i gytundeb â'r UE.

Mae Ysgrifennydd Cyfansoddiad Llywodraeth yr Alban, **Michael Russell, wedi nodi** y bydd Llywodraeth yr Alban yn dechrau ailedrych ar [ei] pharatoadau Brexit dim cytundeb, o ystyried mai dim cytundeb neu rywbeth bron cynddrwg yw'r canlyniad mwyaf tebygol o ran y trafodaethau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

## Cysylltiadau rhynglywodraethol

Cyfarfu Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd) ddiwedd mis Mai am y tro cyntaf ers mis Ionawr. **Trafododd y Cyd-bwyllgor (EN)** hwn y negodiadau, y parodrwydd, a'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Mewn datganiad cyn y cyfarfod, dywedodd y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd** y byddai'n galw am:

- drafodaethau strwythuredig, cyfunol a manwl rhwng y DU a llywodraethau datganoledig ar y trafodaethau;
- estyniad i'r cyfnod pontio; ac
- i'r adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol barhau.

Dywedodd y Gweinidog Pontio Ewropeaidd ei fod hefyd wedi siarad yn wythnosol â Penny Mordaunt AS, Tâl-feistr Cyffredinol Llywodraeth y DU, ond nid oedd papurau ysgrifenedig wedi cyd-fynd â'r cyfarfodydd hyn.

Yn ystod sesiwn dystiolaeth y **Pwyllgor ar y Berthynas â'r UE yn y Dyfodol Tŷ'r Cyffredin** ar 27 Mai, dywedodd Joanna Cherry AS fod Michael Russell, cynrychiolydd Llywodraeth yr Alban ar Gyd-bwyllgor y Gweinidogion wedi cynnig y dylai 'ymgynghori'n iawn' â'r cenhedloedd datganoledig gynnwys cynnal cyfarfod pedair ochrog rhwng Gweinidogion cyn y rownd nesaf o drafodaethau.

Adroddwyd bod y gweinyddiaethau datganoledig eraill yn cefnogi'r cynnig. Disgrifiodd Michael Gove, Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn y cynnig fel un 'adeiladol' a chadarnhaodd mai ei nod yw cynnal cyfarfod o'r fath yn dilyn trafodaethau â 'chydweithwyr eraill yn y Llywodraeth.' Dywedodd hefyd, fodd bynnag, y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar 'bwynt priodol,' ac nid o reidrwydd cyn i'r rownd drafod ddechrau ar 1 Mehefin, fel y gofynnwyd.

### Ymgynghoriad pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin

Ymgynghorodd Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin â phwyllgorau dethol adrannol Tŷ'r Cyffredin ynghylch eu barn ar y trafodaethau rhwng y DU a'r UE. Roedd hyn yn dilyn **adroddiad y Pwyllgor ar fandad negodi'r UE** ar 17 Mawrth. Cyhoeddwyd **canlyniad yr ymgynghoriad hwn** â'r pwyllgorau ar 6 Mai.

# 4. Datblygiadau yng Nghymru

### Trafodaethau ynghylch y berthynas â'r UE yn y dyfodol

Gwnaeth y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ddatganiad ar y trafodaethau ar 7 Mai. Ailadroddodd alwad Llywodraeth Cymru am estyniad i'r cyfnod pontio, a dywedodd:

> … er gwaethaf addewidion i wella hyn wrth i'r trafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol ddechrau, aeth yr ymgysylltiad â Gweinidogion hyd yn oed yn fwy annigonol. Er gwaethaf ei hymrwymiad ffurfiol yng nghylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) i geisio cytundeb â'r Llywodraethau Datganoledig ar y trafodaethau, mae Llywodraeth y DU wedi methu â rhoi cyfle ystyrlon inni gael dylanwad.'

### Trafodaethau rhyngwladol

Rhoddodd **Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol** ddiweddariad i'r Senedd ar drafodaethau rhyngwladol ar 6 Mai. Dywedodd:

> Gallaf gadarnhau bod yr ail fforwm gweinidogol ar fasnach wedi'i gynnal yn ddiweddar, ac rwy'n dal i fod mewn cysylltiad agos â'r Gweinidogion perthnasol ledled y Deyrnas Unedig. Nawr, mae'n ymddangos bod Llywodraeth y DU yn benderfynol o gytuno ar gytundeb gyda'r UE erbyn diwedd y flwyddyn er gwaethaf yr amgylchiadau newydd hyn, felly mae negodiadau gyda'r Unol Daleithiau ar gytundeb masnach wedi dechrau bellach, ac mae gwaith ar baratoi ar gyfer negodiadau gyda Japan a gwledydd eraill sydd â blaenoriaeth yn mynd rhagddo'n gyflym.

## Deddfwriaeth

Rhoddodd y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ddiweddariad i'r Senedd ar y ddeddfwriaeth sy'n ofynnol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar 7 Mai, gan ddweud ei bod yn debygol y byddai 'angen rhaglen arwyddocaol o offerynnau statudol' erbyn diwedd y cyfnod pontio. Dywedodd:

> Rydym wedi gofyn i Lywodraeth y DU rannu cynllun credadwy ynglŷn â sut y gellir pasio pob deddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd mis Rhagfyr, ond nid ydynt wedi gwneud hyn.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi gosod Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol** ar y Bil Amaethyddiaeth, y Bil Pysgodfeydd, Bil yr Amgylchedd a'r Bil Masnach erbyn hyn.

## Parodrwydd

Ar 7 Mai, dywedodd y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd:**

> Mae COVID-19 eisoes wedi effeithio ar gapasiti presennol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i baratoi at ddiwedd y cyfnod pontio. Yn fwy sylfaenol, mae graddfa'r argyfwng presennol wedi cael effaith enfawr ar allu pobl, busnesau a sefydliadau eraill i ystyried diwedd y cyfnod pontio, heb sôn am gymryd camau i baratoi ato. Bydd peryglon hyn yn cynyddu pe bai newidiadau sylweddol i fasnach a chyflenwadau cyflenwi yn taro busnesau sydd eisoes yn fregus, na fydd yn barod ac a fydd yn dal i ddioddef effaith y pandemig – gan arwain o bosibl at oblygiadau difrifol ledled Cymru.

Cyhoeddodd **Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin** adroddiad ar borthladdoedd rhydd a Chymru ar 8 Mai. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth y DU nodi'n fwy manwl ei hasesiad o botensial economaidd porthladdoedd rhydd, gan gynnwys sut y mae'n bwriadu defnyddio porthladdoedd rhydd i helpu i sicrhau lefel gydradd uwch ar gyfer cenhedloedd a rhanbarthau'r DU. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd na ddylai Llywodraeth y DU ganiatáu i'r cymhlethdodau a grëwyd yn sgîl y setliad datganoli greu anfantais o ran y cynigion a gyflwynir gan borthladdoedd Cymru, ac y dylai Llywodraeth Cymru weithio'n adeiladol gyda phorthladdoedd Cymru.

## Fframweithiau Cyffredin

Rhoddodd y **Gweinidog Pontio Ewropeaidd** ddiweddariad i'r Senedd ar y rhaglen fframweithiau cyffredin mewn datganiad ysgrifenedig ar 7 Mai.

> Mae swyddogion o'r pedair gweinyddiaeth wedi bod yn cydweithio i ystyried sut i ddarparu'r meysydd fframwaith pwysicaf. Ond bydd hyd yn oed cyflawni hyn erbyn diwedd y flwyddyn yn anodd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **seithfed adroddiad statudol** ar Ddeddf yr UE (Ymadael) a fframweithiau cyffredin, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 25 Mawrth 2020. Roedd yr adroddiad yn nodi bod sawl fframwaith yn agosáu at gael eu cadarnhau dros dro gan weinidogion y DU a'r gweinidogion datganoledig yng Nghyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r Undeb Ewropeaidd). Nododd hefyd fod Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn 'ail-werthuso cynlluniau darparu a llinellau amser, er mwyn ystyried yr achosion o COVID-19 a'i effaith.'

## Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Ymestynnodd Llywodraeth Cymru y dyddiad cau ar gyfer ei hymgynghoriad ar y **fframwaith buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru** hyd at 5 Mehefin.